# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# (SLC(3)-16-08)

**SLC168**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 ni fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn/ offeryn drafft a ganlyn:

**Teitl: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) a (Rhestri Cyflawnwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2008**

- mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau Contractau GMS") a hefyd yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr").

Dyma'r effaith y mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Contractau GMS yn ei gael:-

Diwygio cyfeiriadau at "incapable adults" i gyfeiriadau sy'n adlewyrchu'r termau a ddefnyddir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005;

Diwygio darpariaethau sy'n ymwneud â system llywodraethu clinigol y contractiwr yn arbennig mewn perthynas â rheoli a defnyddio cyffuriau a reolir; a

Gwneud mân newidiadau i'r cyfyngiadau ar y rhai sy'n gymwys i gontractio i ddarparu gwasanaethau meddygol sylfaenol.

Mae'r Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr wedi'u diwygio er mwyn darparu bod:-

y cyfnod pryd y caiff cyflawnwr ddarparu gwasanaethau meddygol neu ddeintyddol sylfaenol ac yntau heb fod ar y rhestr a ddeil gan Fwrdd Iechyd Lleol yn cael ei estyn o ddeufis i dri mis;

Ei gwneud yn glir bod cyflawnwr y mae ei enw wedi'i dynnu dros dro oddi ar restr i gael ei drin fel petai wedi'i gynnwys yn y rhestr mewn perthynas ag unrhyw gais y caiff ef neu hi ei wneud i gael ei gynnwys/ei chynnwys mewn rhestr arall; a

Gall meddyg sy'n ymgymryd â'r rhan ôl-gofrestru o'r rhaglen sylfaen i feddygon sydd newydd gymhwyso, gyflawni gwasanaethau meddygol sylfaenol ac yntau heb fod yn ymarferydd cyffredinol na'i enw wedi'i gynnwys ar restr, i'r graddau y mae cyflawni'r gwasanaethau meddygol sylfaenol yn rhan o'r rhaglen honno.

### Gweithdrefn:

Cadarnhaol [ ]

Negyddol [ **x** ]

Er na nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 efallai'r hoffai'r Pwyllgor nodi er bod y Rheoliadau hyn wedi eu gwneud yn ddwyieithog, oherwydd bod y Rheoliadau Contractau GMS a'r Rheoliadau Rhestri Cyflawnwyr wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig, mae'r testun diwygio sydd i'w fewnosod i'r Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Mehefin 2008